

This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

Adroddiad Ymgynghori

Grangetown: Cyfleusterau i Gerddwyr ar Avondale Road a Corporation Road

Rhif Project: CO18185

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 4 Ionawr 2019 a 28 Ionawr 2019. Derbyniwyd 4 ymateb ac roedd 3 o blaid y cynllun. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi'u crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr adroddiad isod, cynigir bwrw ymlaen â'r cynllun, yn amodol ar y cyllid a fydd ar gael.

Derbyniwyd y sylwadau canlynol **yn erbyn** y cynigion.

Mater 1 – Pryderon Llwyfan Arafu

Lle bynnag y bydd byrddau arafu lled llawn yn cael eu cyflwyno rydym o hyd yn mynegi pryderon ynghylch eu proffil a'r cynnal a chadw arnynt. Ledled y ddinas ceir llw o enghreifftiau lle mae'r proffiliau yn amrywio cymaint fel eu bod yn cyfaddawdu ar ddiogelwch ein cerbydau ac ansawdd y profiad teithio.

Mae gyrru parhaus dros y cyfyngiadau hyn yn prysuro dirywiad cydrannau ar y bws sy'n golygu cyfradd adnewyddu amlach a chost uwch i'n busnes. Maent hefyd yn cael effaith andwyol ar ansawdd y profiad teithio, a gall hyn gael effaith negyddol ar nifer y siwrneiau y bydd pobl yn ei wneud gyda ni.

Ymateb

Cydnabyddir bod byrddau arafu ag amrywiol oleddfau ar hyd a lled y Ddinas a cheisiwn ddarparu byrddau â goleddf gyson ar bob bwrdd arafu newydd. Er mwyn cynnig taith esmwyth i deithwyr bysiau, caiff y byrddau hyn eu cynllunio â goleddf o 1 mewn 16, gyda lleiafswm pellter o chwe metr rhwng dechrau a diwedd y byrddau, na ddylai felly beri difrod i gerbydau os eir drostynt ar gyflymder addas. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd wyneb ffordd gwell ar y bwrdd ei hun ac ar yr ardal yn union o'i flaen ac ar ei ôl er mwyn lleihau unrhyw newid i'r proffil.

Yn anffodus, un o'r unig ddulliau sydd gennym i arafu traffig yw trwy ddefnyddio byrddau arafu. Mae byrddau arafu yn addas ar gyfer y lleoliadau hyn er mwyn creu amgylchedd priffordd mwy diogel ger y groesfan i gerddwyr.

Mater 2 – Pryderon draenio

Rwy'n credu y dylid mynd i'r afael â'r broblem bresennol o ran llifogydd ar ein stryd er mwyn i'r cynnig fod o fudd i gerddwyr.

Ymateb

Caiff y ddarpariaeth ddraenio ei hasesu yn ystod y cam cynllunio manwl, gosodir gylis newydd yn ôl yr angen er mwyn sicrhau y ceir digon o ddraenio ar y briffordd.

Mae'r canlynol yn ddetholiad o lythyrau a dderbyniwyd i **gefnogi'r** cynigion

“Ysgrifennu i fynegi fy mod yn gwerthfawrogi'r cynnig croesfan ar Corporation Rd. Mae angen hyn ers amser oherwydd bod pobl yn croesi at y safle bysus yn rheolaidd, ac ar gyfer preswylwyr sy'n croesi yn gyffredinol a gall hyn gymryd amser hir oherwydd y traffig sy'n dod o'r gylchfan, a all fod yn beryglus oherwydd bod ceir yn ceisio tynnu allan i oddiweddyd y bysus llonydd ac nid ydynt yn gweld y cerddwyr yn croesi.”


“Rydym yn fodlon ar y dull rheoli traffig a gynigir.”

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy.

A Proud Capital
Prifddinas Falch

